

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

19 Gorffennaf 2017

Yn Bresennol: Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd D Clements, Mrs G Hayward, Dr R Heath Davies, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.45am – 1.50pm)

1. Penodi Cadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd M Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

2. Penodi Dirprwy Gadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi Mr A Archer yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd M Williams.

4. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr A Archer bod ganddo fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn adroddiad 15/17 Tystysgrif Cynllun Gwella ond parhaodd yn yr ystafell a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth ar yr adroddiad.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Fai 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Fai 2017.

6. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2017.

7. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2017/18

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr David Long o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, Gateway Assure. Eglurodd Mr Long bod yr



adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn ganlyniad gwaith a gwblhawyd yn erbyn Bloc 1 o Gynllun Archwilio Gweithredol 2017/18 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn flaenorol, ac roedd y gwaith yn cwmpasu diogelu, rheolaethau ariannol allweddol – y gyflogres a'r treuliau, adnoddau dynol ac incwm grant. Roedd sicrwydd sylweddol wedi'i roi ym mhob maes, ac roedd y canfyddiadau, casgliadau ac unrhyw argymhellion wedi'u nodi yn yr adroddiad.

O ran Diogelu, roedd un Aelod o'r farn y dylai pob aelod o staff a gyflogir gan yr Awdurdod gael Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag eglurodd y swyddogion mai'r unig hawl gyfreithiol oedd gan yr Awdurdod i gael gwiriad ar staff oedd os oedd eu swyddi yn ei gwneud yn ofynnol i gael y cyfryw wiriad. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cytuno ar y Polisi Diogelu ac awgrymwyd dosbarthu copi o'r polisi i bob Aelod, a bod hyfforddiant ar hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o gwrs sefydlu'r Aelodau.

Gan droi at yr argymhelliad yn yr adran Adnoddau Dynol o'r adroddiad y dylai newidiadau i ddisgrifiadau swydd gael eu hanfon at y Rheolwr Personnel, roedd rhai Aelodau o'r farn y gallai hyn sicrhau cysondeb ar lefel gorfforaethol. Dywedodd y swyddogion bod y mwyafrif o ddiweddariadau i ddisgrifiadau swydd yn cael eu trafod a/neu eu cyfeirio at yr adran Personnel.

NODWYD.

8. Datganiad Drafft o Gyfrifon 2016/17

Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Datganiad Drafft o Gyfrifon wedi cael ei gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y cyfrifon oedd gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth yn unig, a byddai'r cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y 9^{ed} o Awst i'w cymeradwyo; roedd y cyfrifon ar gael ar y pryd i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac roedd hysbysiadau i hysbysebu hynny wedi'u cyhoeddi yn y wasg.

Roedd y cyfrifon yn ddogfen hir, ond gellid cael y wybodaeth allweddol yn yr adroddiad naratif ac yn y cyfrifon cryno. Aeth y Rheolwr Cyllid rhagddo i arwain yr Aelodau drwy'r adroddiad hwn, gan nodi o dan "O ble ddaeth yr arian" bod y cyllid refeniw cyffredinol wedi cynyddu 5.3% o ganlyniad i £750k ychwanegol o Grant y Parciau Cenedlaethol a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau penodol, er nad oedd y cyllid ychwanegol hwn yn denu'r cyfraniad Ardoll arferol. Roedd yr incwm a gynhyrchir yn lleol wedi gostwng ychydig ar y cyfan oherwydd gostyngiad mewn incwm o'r eiddo buddsoddi oedd wedi deillio o'r ail-gerio prydles, ond y gobaith oedd mai gostyngiad dros dro fydd hyn. Hefyd bu gostyngiad mewn gwerthiant nwyddau gan na fu cyfnod y Pasg yn y



flwyddyn ariannol 2016/17. Roedd incwm ffioedd cynllunio wedi cynyddu o ganlyniad i gyflwyno codi tâl am ymholiadau Cyn-ymgeisio.

Gan droi at "Ar beth y gwariwyd yr arian", roedd gwarged net yn y cyfrif refeniw ac esboniad yn yr adroddiad am y prif amrywiadau o fewn pob gwasanaeth. Hefyd yn yr adroddiad roedd manylion am y rhaglen gyfalaf.

Wedi ateb amrywiaeth o'u cwestiynau, diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Cyllid am adroddiad cynhwysfawr.

NODWYD.

9. Tystysgrif Cynllun Gwella

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn y Dystysgrif Cynllun Gwella oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd y dystysgrif hon ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd y dystysgrif yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â gofynion adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

NODWYD.

10. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2016-17

Cyflwynodd y Rheolwr Personél yr adroddiad fel Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch. Nodwyd bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn disgwyl bod iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried yn risg busnes allweddol mewn penderfyniadau 'bwrdd', ac roedd yr adroddiad hwn felly yn tynnu sylw'r Aelodau at waith yr Awdurdod yn y maes hwn.

Roedd yr adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran – roedd Adran 1 yn adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2016-17 o ran y materion a'r gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â rheoli ac arferion iechyd a diogelwch ar draws yr Awdurdod, ac roedd Adran 2 yn adroddiad ar berfformiad yn 2016-17 ac yn nodi'r blaenoriaethau risg a'r cynlluniau ar gyfer 2017-18.

Yn gynwysedig oedd y camau a gymerwyd o ran y blaenoriaethau risg yn 2016-17, data damweiniau a digwyddiadau, a'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Byddai rhai o'r tueddiadau a glustnodwyd yn y data yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn sydd i ddod o ran y gwersi a ddysgwyl ac i gasglu gwybodaeth gefndir i weld a oedd unrhyw feysydd iechyd lle gellid canolbwyntio'r cymorth.

Roedd yr Aelodau â diddordeb i weld y rhesymau dros absenoldeb oherwydd salwch o ystyried eu pryderon y byddai lleihad yn nifer y staff yn achosi cynnydd yn lefelau straen. Fodd bynnag nodwyd hefyd bod



lefelau uwch o straen a mwy o faterion iechyd meddwl yn dueddiad cyffredinol yn ein cymdeithas.

Dyweddod y rheolwr Personél bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gofnodi digwyddiadau a digwyddiadau fu bron â digwydd er mwyn atal damweiniau yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau, yn ogystal â'r staff, yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau 'gelyniaethus'. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau adrodd pob Awdurdod yn cael eu cynnal ar yr un sail ac felly roedd meincnodi yn anodd.

Wrth edrych ymlaen at y blaenoriaethau risg ar gyfer 2017-18, byddai'r gwaith yn canolbwyntio unwaith yn rhagor ar waith sy'n dod i gysylltiad â swm, ymddygiad llonydd, ffitrwydd ar gyfer gweithio gydol oes a sicrhau bod gweithwyr yn cymryd cyfrifoldeb personol ac yn ymwybodol yn bersonol o risg. Hefyd wedi'u nodi oedd y dangosyddion y byddai perfformiad yn cael ei fesur yn eu herbyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

11. Adolygu'r Polisi Rheoli Asedau Portffolio Eiddo yr Awdurdod

Dyweddwyd bod Polisi Rheoli Asedau cyfredol yr Awdurdod wedi cael ei fabwysiadu fis Ebrill 2013 a bod gofyn adolygu'r polisi cyn pen 5 mlynedd. Roedd portffolio eiddo yr Awdurdod yn cael ei adolygu yn gyson drwy waith y Grŵp Eiddo a Phrosiectau, ac yn ei gyfarfod fis Mehefin 2017 roedd y Grŵp o'r farn bod y ddogfen Polisi Rheoli Asedau Portffolio presennol a fabwysiadwyd yn parhau i fod yn addas at y diben y tu hwnt i'r dyddiad adolygu fis Ebrill 2018 heb yr angen i'w newid.

Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw oblygiadau i gymunedau o siaradwyr Cymraeg o waredu eiddo'r Awdurdod, a dywedwyd wrtho bod yr ystâd yn weddol fach o ran maint ac nad oedd hyn yn debygol o fod yn broblem.

PENDERFYNWYD cymeradwyo parhau i ddefnyddio'r ddogfen Polisi Rheoli Asedau presennol y tu hwnt i Ebrill 2018, ac mai dyddiad yr adolygiad rheolaidd nesaf fydd mis Ebrill 2023.

12. Adroddiad Perfformiad am y flwyddyn oedd yn diweddu ar 31 Mai 2017

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod y strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 yn amlygu strwythur y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oedd â saith o amcanion llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd wedi'i addasu i ddilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd nifer o fesurau newydd



wedi cael eu cyflwyno i amlygu'r camau gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2017/18.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mai, ac roedd gwaith eisoes wedi cychwyn ar y rhan fwyaf o'r camau gweithredu. Fodd bynnag, lle roedd data wedi'i gasglu bob chwarter, ni fyddai'r ystadegau ar gael tan ddiwedd mis Gorffennaf ac y byddai'r data felly yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Roedd gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys ar ddiwedd yr adroddiad yn egluro'r ystadegau gorfodaeth gynllunio yn 2016/17 yn dilyn cwestiwn a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Roedd y swyddogion bellach wedi adolygu'r data a'r modd y cafodd y data ei gyflwyno, ac y byddai'r data yn y dyfodol yn cael ei goladu a'i gyflwyno yn unol â'r dangosyddion statudol ar gyfer achosion gorfodi sy'n cael eu harchwilio a'r camau gorfodi a gymerir. Mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch gorfodi amodau cynllunio a'r niferoedd o geisiadau cynllunio ôl-weithredol oedd yn deillio o hynny oedd yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod gorfodaeth yn fater cymhleth, ac awgrymodd y gallai gweithdy ar y pwnc hwn fod yn ddefnyddiol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad perfformiad.

13. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dîm Rheoli a gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan nodwyd y camau ymlaen a gymerwyd a'r newidiadau. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y risg o ostyngiad sylweddol mewn cyllid, atebodd y swyddogion mai'r gobaith yw y byddai'r Awdurdod yn derbyn amcan o gyllideb 18/19 yn yr hydref. Byddai gweithdy ar y gyllideb yn cael ei drefnu ar gyfer yr Aelodau ym mis Rhagfyr cyn i'r Awdurdod gymeradwyo'r gyllideb a'r ardoll ar Gyngor Sir Penfro fis Chwefror 2018.

NODWYD.

14. Perfformiad y Gyllideb

Eglurodd y Rheolwr Cyllid, oherwydd ei waith yn cau cyfrifon yr Awdurdod, nad oedd wedi cynhyrchu adroddiad ar berfformiad y gyllideb am chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, dosbarthodd dabl oedd yn dangos incwm y chwarter cyntaf yn erbyn y gyllideb a'r blynyddoedd blaenorol o ran gwerthu nwyddau, taliadau mynediad ac incwm meysydd parcio. Roedd y tabl yn dangos bod gwerthiant, taliadau mynediad ac



incwm meysydd parcio i fyny yn erbyn y gyllideb. Holodd yr Aelodau beth oedd wedi'i gynnwys o dan y pennawd gweithrediadau meysydd parcio, a dywedwyd mai tocynnau tymor oedd wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn; roedd yr incwm o dan y pennawd hwn o'r gyllideb wedi cynyddu yn sgîl y newidiadau i'r polisiau rheoli meysydd parcio y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod fis Tachwedd 2016. Byddai adolygiad o'r newidiadau hyn yn cael ei gynnal ar ddiwedd y tymor.

NODWYD.

15. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

